**EITEM AR YR AGENDA: 13**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19 Medi 2016**

**Y BROSES BENODI I SWYDD TRYSORYDD**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub am y trefniadau ar gyfer recriwtio i swydd wag Trysorydd.

## Cefndir

2 Bydd yr aelodau'n cofio bod Mr Ken Finch wedi gadael ei swydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ar ddiwedd Ionawr 2016. Gyda hynny, gorffennodd y trefniant lle roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu gwasanaethau Mr Finch fel trysorydd i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth. Er hynny, mae CBSC wedi rhoi gwybod i'r awdurdod tân ac achub nad oes ganddynt mwyach y gallu i ddarparu Trysorydd.

3 Ystyriodd yr Awdurdod Tân ac Achub fod hwn yn gyfle i gomisiynu adolygiad ar y dull o ddarparu'r swyddogaeth trysorydd i'r awdurdod. Cynhaliwyd yr adolygiad ar y cyd â'r ddau awdurdod tân ac achub arall yng Nghymru. Yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2016, bu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad a phenderfynodd barhau â'i fodel presennol o ddarpariaeth. Penderfynwyd penodi trysorydd annibynnol a fydd yn gweithio'n agos gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân, sy'n gyfrifol am gynlluniau gwelliannau a rheolaeth ariannol, ynghyd â CBSC sy'n darparu'r gwasanaeth cyfrifyddu i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Y broses benodi

4 Yn unol â phob uwch benodiad i'r Awdurdod Tân ac Achub, penodiad gan yr aelodau fydd hwn. Bydd angen cynnull pwyllgor penodiadau yn cynnwys swyddogion yr Awdurdod a chwech o aelodau, gan gynnwys y cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd. Dylai'r pedwar aelod ychwanegol gael eu henwebu o'r awdurdodau unedol cyfansoddol nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan y cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd, a dylent fod yn aelodau o'r Panel Gweithredol.

5 Dylid nodi nad oes rheidrwydd ar yr ymgeisydd llwyddiannus i fod yn weithiwr i un o'r awdurdodau unedol cyfansoddol, ond rhaid iddo ef / iddi hi fod yn unigolyn sydd â'r cymwysterau addas ac sy'n meddu ar brofiad helaeth yn y sector cyhoeddus.

6 Bydd y broses ddethol yn cynnwys cyfweliad ffurfiol gyda'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc i'r Awdurdod. Yna, bydd yr ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam hwnnw o'r broses yn cael eu cyfweld gan y pwyllgor penodiadau. Y bwriad yw y bydd unrhyw benodiad yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19 Rhagfyr 2016.

## Argymhellion

7 Bod yr Aelodau'n:

(i) cymeradwyo'r broses arfaethedig fel yr amlinellir uchod;
(ii) cadarnhau aelodaeth y pwyllgor penodiadau.